CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Tendr Cyfieithu Cynllun Darllen yn Well

## Amserlen

| | |
|---|---|
| Os ydych ar gael i wneud y gwaith isod, atebwch y neges hon erbyn: | **02/04/2025** |
| Os chi fydd y cyflenwr llwyddiannus, cewch wybod erbyn: | **04/04/2025** |
| Anfonir y gwaith atoch erbyn: | **Ar ôl 7/4/2025** |
| Y cyfieithiad i'w ddychwelyd erbyn: | **Y gyfrol olaf erbyn 12/01/2026** |

## Manylion

| | |
|---|---|
| **Cleient:** | Cyngor Llyfrau Cymru |
| **Teitl y gwaith:** | Darllen yn Well i Deuluoedd |
| **Math o waith:** | Cyfieithiad creadigol a thechnegol |
| **Maes pwnc:** | Ffeithiol a ffeithiol-greadigol, gofal amenedigol ac ôl-enedigol ac iechyd meddwl. |
| **Nifer geiriau:** | c. 468,000 |

## Cefndir

Mae Darllen yn Well: Llyfrau ar Bresgripsiwn yn eich helpu i ddeall a rheoli eich iechyd a'ch lles yn defnyddio darllen hunangymorth. Cymeradwyir y rhaglen gan weithwyr iechyd proffesiynol a'i chefnogi gan lyfrgelloedd cyhoeddus. Ar hyn o bryd mae pump rhestr Darllen yn Well: Llyfrau ar Bresgripsiwn ar gael yng Nghymru: cyflyrau iechyd meddwl cyffredin; dementia (rhestrau 2019 a 2024); pobl ifanc; a phlant. Bydd y llyfrau hyn ar gael i'w benthyg o lyfrgelloedd yn ogystal a'u gwerthu'n fasnachol.

The Reading Agency sy'n gyfrifol am y rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gwaith yng Nghymru, ac ymddiriedwyd y gwaith o drefnu cyfieithu a chyhoeddi'r cyfrolau Cymraeg i'r Cyngor Llyfrau. Mae'r tendr hwn yn ymwneud yn benodol â'r llyfrau amenedigol.

**Y Gwaith**
Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn chwilio am dendrau cystadleuol o hyd at £37,000 i gyfieithu 7 llyfr (c. 468,000 o eiriau) yn ymwneud â gofal amenedigol (*perinatal*) ac ôl-enedigol. Mae'r testun yn cynnwys y clawr, y clawr cefn, y llyfryddiaeth, y mynegai ac unrhyw eiriad ychwanegol nad yw wedi'i gynnwys yn y prif destun. Am resymau gweinyddol, bydd teitlau y llyfrau wedi'u cyfieithu ymlaen llaw.

**Y Cynnwys**
Mae'r rhestr yn cynnwys amrywiaeth o lyfrau hunangymorth, cyngor a chofiannol yn y maes iechyd amenedigol ac ôl-enedigol a llesiant rhieni a phlant yn cynnwys testunau ffeithiol ac hunangofiannol yn ymwneud ag iselder ôl-enedigol, colli babi a thrawma genedigaeth, mamau newydd a sengl, tadolaeth, a dygymod â phrofedigaeth. Am restr lawn o deitlau gweler Atodiad 1.

**Iaith**
Mae'n hollbwysig bod y cyfieithiad o safon uchel ac yn cael ei olygu'n drylwyr i sicrhau cywirdeb, ansawdd, a chywair priodol a hygyrch.

**Swyddi i gefnogi'r prosiect.**
Mae swyddog prosiect ar gael i ymgymryd â'r gwaith o adrodd ar y prosiect a sicrhau cydweithrediad rhwydd rhwng y cyfieithwyr a'r Cyngor Llyfrau, yn ogystal â chysylltu â'r Reading Agency.

Bydd golygydd canolog hefyd yn gyfrifol am brawfddarllen a sicrhau cysondeb o ran iaith a chywair. **Sylwer, fodd bynnag, y disgwylir y bydd y cyfieithydd yn sicrhau bod y gwaith wedi'i olygu i safon barod i argraffu cyn ei drosglwyddo i'r golygydd ar gyfer y prawf terfynol.**

**Blaenoriaethu teitlau**
Bydd y cyfrolau yn cael eu cyflwyno i'w cyfieithu mewn trefn benodol i fwydo'r cyhoeddwr/wyr yn rheolaidd â thestun i'w gysodi a'i argraffu. Ceidw CLlC yr hawl i amrywio nifer neu gyfnewid teitlau os bydd angen.

**Amserlen gyhoeddi**
Bydd y gwaith cyfieithu yn dechrau ar ei union a bydd cyfrolau gorffenedig yn cael eu cyflwyno mewn trefn benodol, i'w gytuno ymlaen llaw. Dylai'r gwaith fod wedi ei gwblhau erbyn **12 Ionawr 2026**.

Yn fuan ar ôl cyhoeddi'r tendr hwn ar gyfer cyfieithu bydd tendr cyfochrog yn cael ei gyhoeddi ar gyfer y gwaith o gyhoeddi ac argraffu'r llyfrau.

**Cymhwysedd**
Croesewir ceisiadau gan gwmnïau cyfieithu sydd â phrofiad o gyfieithu naratif i safon uchel ac i amserlen benodol. Bydd croeso arbennig i ymgeiswyr gyda phrofiad o gyfieithu ym maes iechyd a lles.

**Meini prawf**
Bydd rhaid i'r tendr llwyddiannus gynnig:

- prosesau cyfieithu, gwirio a golygu o safon;
- profiad o gysoni termau ar draws nifer o gyhoeddiadau;
- sicrwydd o allu gweithio i amserlen realistig;
- gwerth am arian;
- y gallu i gydweithio'n agored gyda'r Cyngor Llyfrau.

**Ceisiadau**
Rhaid i'r cais esbonio sut y byddech yn cyflawni'r contract hwn, gan gynnwys:

- crynodeb o'r pris a gyflwynwyd ar gyfer y tendr a sut y byddai'n cynnig gwerth am arian i Gyngor Llyfrau Cymru. Dylai hyn gynnwys pris fesul 1000 o eiriau a fydd yn sail ar gyfer cyfrifo unrhyw amrywiad yng nghyfanswm y geiriau a gyfieithir (35%);
- unrhyw brofiad perthnasol ym maes iechyd a lles, esboniad clir o sut y byddech chi'n rheoli'r contract hwn, gan gynnwys manylion y cyfieithwyr yn eich tîm, eu cymwyseddau a'u cymwysterau, ac enw rheolwr y cytundeb (25%);
- amlinelliad o'ch gweithdrefnau rheoli ansawdd, gan gynnwys manylion am eich dulliau rheoleiddio terminoleg a defnyddio meddalwedd cyfieithu (20%);
- darparu enghreifftiau o waith blaenorol a wnaed, yn enwedig ym maes iechyd a lles (20%).

**Dyfarnu'r tendr**
Bydd y Cyngor Llyfrau yn dyfarnu'r cytundeb ar sail rhinweddau'r ceisiadau unigol ac anghenion y prosiect yn gyffredinol. Ceidw'r hawl i gefnogi unrhyw gais neu gyfuniad o geisiadau.

Dylid anfon copi electronig o'r cais ar ffurf ffeiliau Word ac Excel mewn e-bost at **darllenynwell@llyfrau.cymru** o dan y pennawd **Tendr Llyfrau Darllen yn Well i Deuluoedd**. Rhaid i geisiadau gyrraedd **erbyn 12:00** (hanner dydd) **ddydd Mercher 2 Ebrill 2025.** Disgwylir y bydd yr ymgeisydd/ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau gweithio ar y prosiect cyn gynted ag y bo modd ar ôl y dyddiad hwn.

**Gofynnwn ichi ddarparu tystiolaeth eich bod yn bodloni'r gofynion, ynghyd â'ch cyfradd ar gyfer y gwaith hwn.**

Os oes gennych ymholiadau, cysylltwch â:

**Enw:** Lowri Angharad Pearson
**Rhif ffôn:** 01970 629543
**E-bost:** darllenynwell@llyfrau.cymru

*Disgwylir i gontractwyr ddarparu gwaith cyfieithu cwbl addas i'w ddiben, yn unol â'r gofynion uchod.*

*Drwy ymrwymo i ymgymryd â'r gwaith hwn, rydych yn datgan na fydd yn arwain at unrhyw wrthdaro buddiant.*

Mae'r ddogefn hon hefyd ar gael yn Saesneg /
An English-language version of this document is also available

**Atodiad 1**

1. *No One Talks About This Stuff: Twenty-Two Stories of Almost Parenthood* = 75,394 gair
2. *You the Daddy: The Hands-On Dad's Guide to Pregnancy, Birth and the Early Years of Fatherhood* = 75,830 gair
3. *Loving You From Here: Stories of Grief, Hope and Growth When a Baby Dies* = 78,958 gair
4. *Coping with Birth Trauma and Postnatal Depression* = 40,241 gair
5. *Bonkers: A Real Mum's Hilariously Honest Tales of Motherhood, Mayhem and Mental Health* = 76,316 gair
6. *Mindful New Mum: A Mind-Body Approach to the Highs and Lows of Motherhood* = 37,171 gair
7. *What Have I Done?: Motherhood, Mental Illness & Me* = 83,994 gair